# Etholiad yr Ysgrifennydd Cyffredinol

Yr Ysgrifennydd Cyffredinol yw un o'r pum Swyddog Anrhydeddus allweddol yng Nghymdeithas Ddysgedig Cymru. Maen nhw'n chwarae rhan hanfodol wrth hyrwyddo ein strategaeth, cynllunio gweithgareddau a sicrhau llwyddiant yr elusen yn y tymor hir. Mae'r Ysgrifennydd Cyffredinol yn gweithio'n agos gyda'r Swyddogion eraill: y Llywydd, Is-lywydd y Dyniaethau, y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol, yr Is-lywydd Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg, Mathemateg a Meddygaeth a'r Trysorydd. Ar lefel staff, cânt eu cefnogi gan y Prif Weithredwr a'r Clerc. Mae'r Ysgrifennydd Cyffredinol yn eistedd ar Gyngor (bwrdd ymddiriedolwyr) y Gymdeithas a phwyllgorau allweddol eraill.

**Cyfnod yn y Swydd**

Bydd yr Ysgrifennydd Cyffredinol yn gwasanaethu am gyfnod o dair blynedd y gymdeithas, gan ddechrau pan ddaw ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol i ben ar 20 Mai 2026. Gall yr Ysgrifennydd Cyffredinol geisio cael ei ail-ethol am ail gyfnod o dair blynedd, ac ar ôl hynny ni fydd yn gymwys i gael ei ail-ethol.

**Prif Gyfrifoldebau:**

- Bydd yr Ysgrifennydd Cyffredinol yn atebol i'r Cyngor am gynnal busnes cyffredinol y Gymdeithas, ac eithrio'r agweddau sy'n ymwneud â chyllid. Bydd yn cyflwyno adroddiadau gerbron y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a allai fod yn angenrheidiol i roi gwybodaeth i Gymrodyr am fusnes y Cyngor. Gall fynd i holl gyfarfodydd y Gymdeithas.' [rheoliad 7.1]
- Er mwyn cyflawni'r ddyletswydd uchod, rhaid i'r Ysgrifennydd Cyffredinol feddu ar wybodaeth ymarferol fanwl am strwythur, cyfansoddiad, rheolau sefydlog, rheoliadau a pholisi'r Gymdeithas a'r fframwaith cyfreithiol y mae'r Gymdeithas yn gweithredu oddi tano.
- Bydd yr Ysgrifennydd Cyffredinol yn cyflwyno yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Gymdeithas, mewn unrhyw Gyfarfodydd Cyffredinol eraill a gynullir, a hefyd, fel y bo'n briodol, yng nghyfarfodydd uwch Bwyllgorau a sefydlir gan y Cyngor, gan gynnwys y Cyngor (4 cyfarfod bob blwyddyn), y Pwyllgor Goruchwylio Llywodraethu (2 gyfarfod bob blwyddyn), y Pwyllgor Adnoddau Dynol (2 gyfarfod bob blwyddyn) a'r Pwyllgor Gweithredol (10 cyfarfod bob blwyddyn).
- Bydd yr Ysgrifennydd Cyffredinol yn cadeirio Cyfarfod Blynyddol y Cenhadon.
- Ar gyfarwyddyd y Cyngor, bydd yr Ysgrifennydd Cyffredinol yn arwain y broses o Benodi Llywydd sy'n adrodd wrth y Pwyllgor Penodi Llywydd cyn gwneud argymhellion i'r Cyngor.
- Bydd yr Ysgrifennydd Cyffredinol yn cymryd rhan yn rhaglen ddigwyddiadau'r Gymdeithas, gan gynnwys mynychu darlithoedd, seminarau a chyfarfodydd eraill. Bydd angen dewis a dethol y rhai mwyaf priodol o blith y rhain.
- Bydd yr Ysgrifennydd Cyffredinol yn chwarae rhan allweddol wrth gynorthwyo swyddogion a staff i gyflawni eu cyfrifoldebau ac yn benodol i sicrhau bod gwaith y swyddogion yn parhau i fod yn gyson â rheoliadau, polisïau a chynlluniau'r Gymdeithas.

- Mae'r Ysgrifennydd Cyffredinol yn cyflawni ei gyfrifoldebau drwy gynnull a mynychu cyfarfodydd a thrwy gysylltu'n rheolaidd â Phrif Weithredwr a Chlerc y Gymdeithas, y mae'n ymgynghori â nhw'n rheolaidd mewn cyfarfodydd anffurfiol neu drwy drafodaethau e-bost/dros y ffôn.
- Yn ogystal â chefnogi'r Prif Weithredwr a'r Clerc, mae'r Ysgrifennydd Cyffredinol yn cynorthwyo'r Llywydd i arwain y Cyngor ac i sicrhau bod penderfyniadau yn gyfranogol ac yn ddemocrataidd, ac arwain y broses o ddatrys anghydfod.
- Bydd yr Ysgrifennydd Cyffredinol yn cyfrannu at sefydlu cyfeiriad strategol y Gymdeithas er mwyn sicrhau ei bod yn cynrychioli Cymru yn rhyngwladol ym myd dysg ac yn cynnig sylwadau a chyngor awdurdodol, ysgolheigaidd a beirniadol ar y lefelau uchaf ar faterion polisi sy'n effeithio ar Gymru.
- Bydd yr Ysgrifennydd Cyffredinol hefyd yn cyfrannu at bolisi ac yn cynnull Cymrodyr er mwyn cynnal ymgyngoriadau ffurfiol drwy wybodaeth am Addysg Uwch, academïau cenedlaethol eraill a system ymchwil y DU.
- Bydd yr Ysgrifennydd Cyffredinol yn ymddwyn bob amser gyda'r uniondeb sy'n angenrheidiol i gynnal hyder y cyhoedd yn y rôl, yn y Gymdeithas ac ym mywyd academaidd a deallusol Cymru.

**Aelodaeth ex-officio:**

- Y Cyngor (Bwrdd yr Ymddiriedolwyr)
- Pwyllgor Gwaith
- Pwyllgor Goruchwylio Llywodraethu
- Pwyllgor Adnoddau Dynol (Cadeirydd)

Gweler yma am ddisgrifiad o'r pwyllgorau hyn.